YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

MAWRTH, 1872.

MWY O FFYDD YN EISIAU YN EIN HEGWYDDORION.

ONID oes rhyw anesmwythder anarferol yn awr yn ein plith, fel Undodiaid, trwy Gymru a Lloegr? Ymddengys fel pe na fyddem yn cael ein boddloni mewn dim a berthyn i ni. Chwenychir newid pob peth, fel pe tybiem fod llwyddiant yr enwad yn ymddibynu mwy ar amgylchiadau allanol nac ar lynu wrth ein hegwyddorion, ac ar ymdrech i'w hegluro a'u taenu. Nid oes dim amser maith er pan y cynygwyd fod i ni o hyn allan ddarllen yn ein haddoliad Sabbothol ddarnau o Shakespear, Milton, ac eraill, yn lle yr Ysgrythyrau, a chafodd y cynygiad gymeradwyaeth gan amryw! Yn ein plith ni yn Nghymru yr ydys am roddi i fyny yr hen arferiad sydd genym o roddi cyfleusdra yn ein Cyfarfodydd Cwarterol a Blynyddol i'r sawl fyddo yn dewis i ofyn am fwy o eglurhad ar ryw beth yn y bregeth a ymddangosai naill ai yn dywyll neu yn ddisail. Heblaw hyn, yr ydys wedi datgan anfoddlonrwydd i'r arferiad o appwyntio rhyw un yn neillduol i draddodi "y bregeth." Hefyd, mae amryw yn ein henwad wedi cael digon, hyd yn nod ar yr enw "Undodiaid," gan feddwl ei fod yn rhwystr i'n llwyddiant, ac y gwnelem yn well hebddo. Tybiant fod rhyw enw, megys *Free Christians*, neu *Rhydd-Grist'nogion*, nid "penrydd," cofiwch, yn fwy addas, am nad yw yn cynnwys credo, fel y gair "Undodiaid," oblegid mae rhyw wrthwynebiad rhyfeddol wedi codi yn ein plith yn ddiweddar yn erbyn pob math o gred. Dan yr enw *Free Christians* amcanwyd ryw amser yn ol i sefydlu cymdeithas grefyddol yn *West End*, Llundain, ond methwyd wrth gwrs gael y

bobl i mewn, oblegid gwyddai pawb mai Undodiaid oedd yno dan enw newydd. Digon tebyg y buasai gan bobl y gymydogaeth fwy o barch iddynt pe daethent atynt yn eu henw priodol. Dywedir eu bod yn awr wedi cymeryd at yr hen enw, ond p'un a fydd mwy o lwyddiant nac o'r blaen, amser ddengys. Mae yn ffaith fod llawer o anesmwythder o'r fath hyn yn ein plith. Rhyw haint yw fel y *cholera* neu y frechwen. Beth yw'r achos? Ymddengys i ni ei fod yn cael ei achosi lawer gan ysbryd presenol yr oes, tueddiad yr hwn yw dymchwelyd hen arferion a syniadau. Nemawr sydd foddlon heb ryw beth newydd—rhyw beth fyddo yn darawiadol a chynyrfiol. Os nad oes gan ddyn feddylddrych newydd i gynyg, ceisia wisgo yr hen mewn dull anarferol, fel y byddo iddo hynodi ei hun ryw ffordd. Nid oes nemawr wrth eu bodd yn awr os na fyddant yn rhodio maes o'r llwybr cyffredin. Mae llawer o hyn yn ysbryd yr oes, ac wrth gwrs y mae yn ymlusgo i mewn i bob enwad crefyddol, i raddau mwy neu lai.

Mae yn bosibl hefyd fod gan y cydymryson caled sydd yn awr rhwng yr enwadau Trindodaidd ryw ran yn yr achos. I fod cydymryson mawr rhwng yr enwadau am enill y lluaws, sydd eglur i bawb a ddaliant sylw. Ni fu "y drwm eglwysig" yn cael ei guro yn fwy mynych, nac yn galettach erioed nac y mae yn awr. Cael y bobl i mewn yw y prif beth gan bob enwad. "Beth yw'r achos na fyddem yn fwy llwyddianus," sydd gwestiwn a ofynir yn fynych genym ninau yr Undodiaid, ac nid yw ryfedd, oblegid cig a gwaed ydym fel eraill. Wrth gwrs, yr ydym yn caru poblogrwydd. Pwy na sydd? Nid ydym yn foddlon i'n cyflwr o eisiau mwy o lwyddiant enwadol. Y canlyniad yw anesmwythder, a thuedd i ffeindio bai ar bob peth, a chyfnewid pob trefn.

Nid yw yr awydd hon am boblogrwydd heb ei heffaith. Un o'r effeithiau ar yr enwadau Trindodaidd yw gosod llai o bwys ar y pynciau. Flynyddau yn ol safent yn fawr dros unffurfiaeth barn yn yr eglwys. Os y canfyddent hwrdd neu ddafad ddu—rhyw *heretic* yn y gorlan—teflid y llwdn maes i'r oerfel yn ddi-drugaredd, os nid i ofal tyner y bachgen â'r traed eidion. Cymerid gofal nid bychan yn y "Seieti" i holi Rees Morgan y crydd, Gweno'r Plas, a Mali Bryncoch, ar y pwnc hyn a'r pwnc. Beth oedd eu barn am y pechod gwreiddiol, y cwymp yn Eden, ac etholedigaeth ddiamodol! Yr oedd yn rhaid cael sicrwydd, cyn eu derbyn i mewn, eu bod yn iach yn y ffydd. Yn awr mae llawer o hyn wedi darfod. I mewn a hwy yn grwnswth yw hi yn awr, gan nad beth yw eu barn. Pe bai "Sosin" yn eu plith, nid yw o fawr bwys. Rhaid eu derbyn pan y ceir cynyg, onide mae gŵyr Bethel yn sicr o'u cipio.

Mae yr effaith hefyd ar ein henwad ninau, ond ryw beth yn wahanol. Mae i'w ganfod nid yn unig yn y duedd i gyfnewid hen arferion, ac i osod i lawr *blans* newydd a dybir yn fwy cymeradwy gan y lluaws, ond mewn dal mwy ar foesoldeb a llai ar athrawiaeth. Tybia llawer fod ein gwaith yn dadleu, yn dinoethi cyfeiliornadau, ac yn mhel â gwrthuni yr athrawiaethau Trindodaidd, yn tarfu dynion rhag dyfod i'n gwrando. Y canlyniad yw fod rhai pregethwyr yn ein plith wedi cymeryd at bregethu moesoldeb, yr hyn ni rydd dramgwydd i neb. Gellid cyrchu yn

awr i rai o'n capeli am flwyddyn, heb wybod, o ran dim a glywir yn y pwlpid, mai Undodiaid sydd yno yn addoli. Tybir mai dyma'r ffordd i gael y lluaws i wrando.

Mae hwn yn ymddygiad call, rhaid addef, ond nid yw yn un doeth a chymmwys i Undodiaid, ac y mae y sawl sydd wedi cymeryd ato yn sicr o gael eu siomi yn y pen draw. Ni lwyddant i gynhyddu eu cynulleidfaoedd. O'r tu arall, maent yn sicr o leihau. Mae pregethau ar foesoldeb yn burion yn eu lle, ond nid oes dim a lara dynion arnynt yn gynt. Heblaw hyny, mae pob un meddylgar yn y gynulleidfa yn sicr o ofyn iddo ei hun i ba ddyben y wyneba wawd a dirmyg, ac efallai anfanteision bydol, i gynal i fyny gymdeithas nad yw yn ateb ei dyben cyntefig. Gall gael digon mewn capel Trindodaidd o'r nwyf o fath y pregethau glasddwraidd a moel mae yn glywed Sul ar ol Sul, a hyny heb wneud yr aberth ag y mae yn awr yn wneud trwy gyrchu i'r capel Undodaidd, ac at sect y dywed pawb yn ei herbyn.

Y gwir yw, mae yn ammhosibl i ni, yr Undodiaid, i fod yn boblogaidd. Pe baem felly ni fyddai dim rhagor o'n heisiau fel enwad. Diwygwyr crefyddol ydym ni, ac am hyny, fel pawb diwygwyr, rhaid i ni fod yn anmhoblogaidd. Pwy bynag a anturia i ryfela yn erbyn cyfeiliornadau crefyddol a rhagfarnau dynion, mae yn sicr o gael dioddef ryw ffordd neu gilydd. Prif ddyben pob eglwys Undodaidd ddylai fod, i oleuo y gymydogaeth y mae ynddi, mewn pethau crefyddol, ac ymdrechu hyd a allo, i adferu Crist'nogaeth i'w phurdeb dechreuol. A'r gweinidog—efe yw geneu y gynulleidfa. Arno ef y mae yn disgyn i draethu, egluro, ac amddiffyn ei hegwyddorion. Os na wna hyn, mae yn bradychu y gwaith gymerodd mewn llaw; neu os yw yn rhy ofnus, neu yn rhy wan, i ymgydio â chyfeiliornadau, i'w dinoethi, ac egluro i ddynion rai sydd yn fwy cydweddol ag ewyllys Duw fel yr eglurir hi yn ei air ac yn ei weithredoedd, nid yw o ddim gwerth, a dylai ar unwaith roddi lle i arall a fedda fwy o gymwysder at y gwaith.

Ein cyngor ni i'n brodyr Undodaidd, yn bregethwyr a lleygwyr, yw, bod yn ffyddlon i'w hegwyddorion, a gadael poblogrwydd i'r gwynt i'w chwythu lle y myno. Peth yw poblogrwydd na ddaw byth i'n rhan ni.

UNDODIAETH GRIST'NOGOL.

Derbynia Undodwyr Crist'nogol yn ddibryder a diolchgar y datguddiad dwyfol a gynwysir yn Ysgrythyrau yr Hen Destanent a'r Newydd. Nid oes amheuaeth ganddynt i "Dduw, wedi iddo lefaru lawer gwaith a llawer modd, gynt wrth y tadau trwy y prophwydi, yn y dyddiau diweddaf hyn, lefaru wrthym yn ei Fab," Iesu Grist. Defnyddiant eu deall mor ddiwyd ag y gallont i fyfyrio y Gyfrol Sanctaidd y'nghyd â phob gwybodaeth o fewn eu cyrhaedd i ryddhau yr Ysgrythyrau o'r cyfeiliornadau ar llygredd ag sydd y'nghwrs oesoedd wedi ymlusgo i mewn iddynt. Cydweithia â hwynt ar y maes hwn lawer o ddysgedigion a berthynant i enwadau eraill, a rhai o Eglwys Rhufain.

Nid oes amheuaeth ganddynt i Dduw mewn modd goruwch-naturiol ddatguddio ei ewyllys er addysg, hyfforddiad, a iechydwriaeth dynolryw, nac ychwaith nad yw y datguddiad hwnw yn gynwysedig yn y Gyfrol Sanctaidd. Mor lleied yw cydymdeimlad Undodwyr Crist'nogol âg anffyddiaeth, fel y maent wedi bod er ys blynyddau lawer gyda'r blaenaf a'r mwyaf llwyddianus i amddiffyn gwirioneddau datguddiad rhag ymosodiadau ei wrthwynebwyr. Fel prawf o'r ffaith bwysig hon gallem grybwyll "Rhesymoldeb Crist'nogaeth" gan John Locke, a "Chrededd yr Efengyl" gan Nathaniel Lardner—gweithiau a fuont dan fendith Duw yn foddion i wrthsefyll y ffrwd o anghrediniaeth a redodd dros Ffrainc a Lloegr yn y ganrif diweddaf. Hefyd, teilwng yw crybwyll "Tystiolaethau Crist'nogaeth," yn ein hamser ni, gan yr anfarwol Channing—gwaith a fwriadodd yr awdwr, ac a fu yn effeithiol mewn modd pwerus, i attal yr ysbryd anghrediniol a dorodd allan flynyddau yn ol yn Unol Daleithau America. Iawn yw chwanegu fod y tir y safai Locke, Lardner, Channing, ac eraill, arno fel Undodiaid Crist'nogol, yn rhoddi mantais ddirfawr iddynt mewn cydmariaeth i Drindodwyr a fuont yn ymladd ar yr un maes. Yr oedd yn rhaid i'r Trindodwr, tra yn amddiffyn Crist'nogaeth, amddiffyn ar yr un pryd ei llygreddau, am hyny yr oedd yn gorfod ymladd mewn llyffetheiriau. Nid felly yr Undodwr. Yr oedd efe yn rhydd i ymgydio â'i wrthwynebwyr, ac i gymherfeddu ei holl bwer yn yr ymgyrch.

Sylwasom yn barod ein bod ni yr Undodwyr, yn derbyn gyda diolchgarwch yr Ysgrythyrau Sanctaidd fel datguddiad o ewyllys Duw, ac yn meddwl ein bod yn dangos ein diolchgarwch am rodd mor werthfawr yn y ffordd oreu, sef trwy ymdrechu eu deall, ac ymostwng yn ostyngedig i'r addysgiadau a gawn ynddynt. Fel y defnyddia myfyriwr natur y *telescope*, a'r *microscope*, a phob cynhorthwy arall o fewn ei gyrhaedd, i'r dyben i dreiddio i mewn i weithredoedd y Creawdwr, felly y defnyddiwn ninau bob moddion allwn gael i ddeall y Llyfr Sanctaidd. Ond fel y byddai y *telescope* yn ddiwerth heb lygaid, felly y byddai pob cyfryngau a feddwn i ddeall yr Ysgrythyrau yn ddiwerth pe na feddem alluoedd rheswm i'w defnyddio. Yr ydym ni gan hyny yn defnyddio ein rheswm, nid yn wir i hyfforddi Duw, nac i ymgecru â'i ddatguddiad, ond i'w chwilio a'i ddeall. Nid ydym, er hyny yn ymddiried gormod i'n rheswm nac ychwaith yn rhedeg i lawr ei alluoedd. Yr ydym yn ei werthfawrogi yn uchel, ac yn bendithio Duw am rodd mor ardderchog, ond nid ydym yn ei osod o flaen datguddiad, nac yn gwrthod pob peth na allwn dynu i lawr i'w lefel. Ein barn yw na ddylai rheswm a datguddiad byth anghyduno, oblegid yr un awdwr sydd iddynt eill dau. Trwy ein rheswm y gwyddom fod yr Ysgrythyrau yn cynwys datguddiad, ac efe sydd yn ein galluogi i wybod beth mae y datguddiad hwnw yn ddysgu.

Pan agorwn y Gyfrol Sanctaidd, tynir ein sylw yn uniongyrchol at un person yn fwy neillduol na phawb eraill—Iesu Grist—mwy na phatriarch, na phrophwyd, nac Apostol, saif yn uwch na phawb, "Mab y Duw byw"—"unig anedig y Tad." Iddo ef y rhoddwyd yr ysbryd heb fesur—yr oedd yn berffaith—"Sanctaidd, diddrwg, dihalog"—pob gair a gweithred a gyflawnodd, pob meddwl a lettyodd, oedd yn berffaith

gysson âg ewyllys Duw. Profodd ei ddwyfol ddanfoniad trwy weithredoedd nerthol, a phan, yn nhrefn doeth a thrugarog y Tad i waredu y byd, yr ymostyngodd yn addfwyn i angeu ar y groes, efe a adgyfodwyd o feirw, ac a "eglurwyd yn Fab Duw mewn gallu." Arno ef yr edrychwn gyda theimlad o barch ac ymddiried, y fath nad allem goleddu tuag at neb arall a fu erioed yn ein byd. Ato ef y trown, fel amlygiad o wirionedd a chariad Duw, am ein maddeuant, ein heddwch, ein cysur, ein iechydwriaeth, a thrwyddo y meithrinwn ffydd fywiol yn y bywyd i ddod. Am y credwn i Dduw ei ddanfon, ac i fod Duw gydag Ef, yr ydym yn ymddiried ynddo fel ein Hathraw a'n Blaenor.

Gyda golwg arno fel y Crist mae Undodwyr Crist'nogol yn amrywio yn eu barn, ond ni ddarfu i neb o honynt erioed goleddu y dyb mai *dyn oedd yn unig* fel un o'r hen athronwyr gynt. Byddai y fath dyb yn groes i dystiolaeth yr hanes am dano, yr hwn hanes a amddiffynwyd gan y meddyliau godidocaf yn ein plith. Pwy bynag a ddaw i'r casgliad mai *dyn yn unig* oedd ein Harglwydd, fel Socrates a Lycurgus, Howard a Channing, derfydd fod yn Gristion yn yr ystyr mai efe oedd y Crist—Deist yw.

Undodwyr Crist'nogol ydynt yn dàl mai un Duw sydd, a'i fod yn un o angenrheidrwydd ac yn hollol. Tybiwn y dysgir yr athrawiaeth bwysig hon—sylfaen gwir grefydd—yn llyfr mawr y greadigaeth. Creigiau y ddaear, tir, mor, ac awyr, goleuni, gwres, gwlaw, eira, llysiau, coedydd, anifeiliaid fil myrdd, tymhorau y flwyddyn, y bodau wybrenol, eu cylchoedd yn yr ehangder diderfyn—ydynt oll yn datgan bodolaeth a mawredd yr ANFEIDROL UN. Gwelwn hefyd yr un athrawiaeth fawr yn cael ei dysgu yn Ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd. Y gwirionedd pwysig a draethir gan Moses, "Clyw, O Israel, yr Arglwydd dy Dduw, un Arglwydd yw," a gadarnheir gan Iesu Grist ei hun. I fod y Duwdod yn bodoli yn dri o bersonau sydd feddylddrych a gafwyd yn athroniaeth Plato, yr hon a gymysgwyd yn gynar â'r grefydd Grist'nogol. Darfu i'r gred daenu yn raddol trwy eglwysi cred, a hi yn awr yw yr athrawiaeth boblogaidd. *Trindodwyr* y gelwir ei choleddwyr. Yn ein tyb ni mae y gred yn gyfeiliornus—yn groes i reswm, natur, ac Ysgrythyr, am hyny yr ydym yn cymeryd yr enw *Undodwyr*—Undodwyr Crist'nogol. Gwir i fod y Trindodwyr yn dal yr athrawiaeth o Drindod *mewn undod*, ac y gallent, mewn un ystyr hawlio, fel yn wir y gwnant, yr enw Undodwyr. Ffolineb fyddai dadleu am enw. Er hyny nis gallwn lai na thybied mai ni yn unig sydd yn deilwng o'r enw anrhydeddus hwn, ac yr ydym yn foddlon dioddef y gwawd a'r dirmyg sydd y'nglyn a'r broffes hon.

Mae datguddiad hefyd yn traethu nid yn unig undod anrhanedig Duw, ond yn ei egluro yn Dduw cariad dan yr enw Tad. Dyma un o brif ddybenion cenadwri Crist. Dan yr enw Tad—"Fy Nhad—eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd"—mae'r Iesu yn wastadol yn siarad am Dduw. Mae cariad Duw yn amlwg yn y greadigaeth oddiamgylch i ni, ac yn ei ragluniaeth fawr, yr hon sydd yn gofalu am bawb o'i greaduriaid—y distadlaf fel y mwyaf anrhydeddus. Ond nid ydym yn gallu canfod ei ragluniaeth mor amlwg ag y dymunem, oblegid cyfyngir ein golygon gan

derfyngylch amser, ac nid yn anfynych y cuddia cymylau tristwch a phrofedigaeth ei phelydrau oddiwrthym. Yn yr Efengyl eglurir ei gariad ym maddeuant, cysur, a iechydwriaeth dynolryw. Yr ydym yn glynu wrth yr athrawiaeth hon—tadol ymarweddiad Duw—ei gariad annysbydd, yn gystal â'i gyfiawnder digamsyniol. Yr ydym, gan hyny, yn gwrthod etholedigaeth ddiammodol a rhagariaeth—athrawiaethau a dybia duwinyddion eu bod yn canfod yn y Beibl. Credu ydym mai camsynied y maent, ac nad yw y Beibl, o'i iawn ddeall, yn dysgu peth mor wrthun. Ar yr un tir hefyd y gwrthdown yr athrawiaeth Galfinaidd y'nghylch marwolaeth Crist. Mae ei farwolaeth a'i adgyfodiad yn ammhrisiadwy werthfawr yn ein golwg, ac ystyriwn fod y groes yn arwydd priodol a chyffrous o'n crefydd. Addefwn gyda phob diolchgarwch i Grist ddioddef—y cyfiawn dros yr anghyfiawn—fel ein cymmoder ni â Duw, ond methwn ddirnad i Dduw gospi ei Fab, a thywallt ei lid arno, ac oni buasai iddo wneuthur felly, y buasai wedi condemnio ein byd pechadurus i drueni trag'wyddol! Mae ein natur yn gwrthryfela yn erbyn yr athrawiaeth hon, oblegid yr ydym yn credu, ac yn teimlo, mai Tad cyfiawn a daionus yw ein Duw ni. Yr ydym yn credu mewn iawn a chymmod trwy Grist, ond gwrthodwn y dyb o gosp ddirprwyol, oblegid mae yn edliwio ar y cymeriad Dwyfol. Ymddengys i ni na wyddai y Crist'nogion cyntefig ddim am yr athrawiaeth, ac mai deilliaw wnaeth o gamddeall ymadroddion ffigwraidd yn y Beibl.

Y llwgr gwreiddiol sydd athrawiaeth arall a wrthodir gan bawb Undodwyr Crist'nogol, er y credant mewn ffyniad pechod, a phechadrusrwydd y natur ddynol. I argyhoeddi ein hunain o'r gwirionedd hwn, ni raid i ni ond taflu ein golwg ar gyflwr truenus dynoliaëth hyd yn nod mewn gwledydd Crist'nogol, yr ydym er hyny yn dal nad yw yn bosibl y gall dyn fod yn atebol am bechod ei gyn-deidiau, ac mai anghyfiawnder o'r mwyaf fyddai ei gospi am danynt. Nis gall neb fod yn atebol ond am ei fuchedd ei hun. Yr ydym yn rhwym o addef, er hyny, fod llawer o ddirgelwch y'nglyn â'r pwnc o bechod, ac o ganlyniad ymorphwyswn ar drugaredd a chariad y Tad Nefol, y gwna Efe, yn ei anfeidrol ddoethineb, bob peth i gydweithio er daioni ei blant. Nid oes un peth yn fwy niweidiol yn ein golwg na phechod, ac nid oes un peth a ddylai dyn arswydo yn fwy ei gyflawni, am hyny nis gallwn wahardd dynion rhag pechu yn erbyn Duw, mewn geiriau rhy lym. Ni welwn effeithiau torcalonus pechod yn y trais, y creulonder, y cnawdolrwydd, yr hunanedd, sydd yn y byd. Yn rhy fynych y gwelwn y corph dynol, yr hwn a fwriadwyd i fod yn deml y Duw byw, yn cael ei droi yn drigfan y diafol. Nid ydym yn gallu gweled un pwer all ddiddymu pechod, a sancteiddio calon dyn, ond Efengyl Crist.

Tu draw i'r bywyd byr a brau presenol mae hi yn datguddio i ni fywyd arall, a thrag'wyddol ei barhad, ac yn gymmaint a'i bod yn sicrhau y bydd i ni gael ein barnu yn ol ein gweithredoedd, pa un ai da ai drwg, hawdd yw canfod pa mor bwysig yw cyfrifolder y bywyd presenol. I'n tywys ar ei fordaith beryglus i borthladd tawelwch a gogoniant y nef, O pa mor werthfawr yw Efengyl Crist, yr hon sydd yn dwyn bywyd ac anfarwoldeb i oleuni. Credwn fod pob peth sydd bwysig ynddi yn gynnwysedig yn Undodiaeth Grist'nogol—awdurdod dat-

guddiad—cenadwri ddwyfol yr Iesu—cariad diffael y Tad Nefol—maddeuant i'r pechadur edifeiriol—barn i ddod a bywyd trag'wyddol.

Ddarllenydd! I ba enwad bynag y perthyni, onid wyt yn canfod yn y golygiadau ydym wedi fraslunio yn y darlith byr hwn, athrawiaethau ag sydd wedi ymgynyg i'th feddwl lawer gwaith wrth ddarllen yr Ysgrythyrau—y gwirioneddau syml fel y maent yn Nghrist Iesu—y ffydd a draddodwyd unwaith i'r Saint? Dyma beth yw Undodiaeth Grist'nogol! Dyma'r ffydd ag y mae cannoedd yn eu hanwybodaeth yn ddifenwi ac yn erlid. Ond onid yw yn ddigon i ni fyw ynddi, ac yn ddigon i'n dal i fyny yn awr marwolaeth? Tro ymaith ragfarn, a meddwl am y pethau hyn yn ddwys ac ystyriol. Pethau ydynt a berthynant i'th drag'wyddol hedd. Peth prysur yw crefydd.

ER MWYN CRIST.

Mae yn hysbys i'n darllenwyr fod yn arfer gan bawb Trindodwyr i ddiweddu eu gweddiau a'u deisyfiadau ar Dduw â'r frawddeg "er mwyn Crist," ac yr ydym wedi clywed rhai Undodiaid cyn hyn yn diweddu yn yr un modd, yr hyn sydd yn peru peth syndod i ni, oblegid dysgwyliwn arnynt hwy wybod yn well.

Rhaid fod y frawddeg yn meddwl un o ddau beth: naill ai "er mwyn Crist," o herwydd ein bod yn tebygoli iddo ein hunain, ac yn ceisio yn ei ysbryd, neu ynte "er mwyn Crist," o herwydd nad oes ynom ein hunain ddim teilyngdod, mae digon ynddo ef. "Dyro i'w gyfiawnder ef gael ei gyfrif i ni, greaduriaid tlawd." Braidd y tybiwn fod neb yn arferyd y frawddeg yn yr ystyr gyntaf, oblegid rhaid myned y'mhell o'r ffordd i gyrhaeddvd y synwyr, am hyny yr olaf a feddylir yn gyffredin.

Deilliodd y dyb ryfeddol hon am gyfiawnder Crist ar y cyntaf oddiwrth y Papistiaid, wrth bob tebyg. Eu hathrawiaeth hwy yw, neu o leiaf oedd, fod Crist, yr Apostolion, a'r hen Seintiau, wedi cyflawni llawer mwy o weithredoedd da nac oedd yn eisiau arnynt eu hunain i fyned i'r nefoedd, ac i fod yr hyn oedd dros ben wedi cael ei osod o'r neilldu, megys mewn ystorfa, ar gyfer pechaduriaid tlawd a safent mewn angen am gynhorthwy pan ar fin ymadael â'r fuchedd hon. Yr oedd yr ystorfa yn ddigon llawn ar gyfer pawb, ond nid oedd neb, cofiwch, i dderbyn dim o honi ond trwy gyfrwng yr offeiriad yn unig. Efe yn unig oedd wedi ei awdurdodi gan y Pab i ddanfon cais i lys y nefoedd pan fyddai angen ar ryw un i fegian cardod. Pa fodd y danfonai yr offeiriad ei gais i'r llys, ni ddywedir. Yr oedd ganddo, yn ddigon tebyg, ryw *electric telegraph* na wyddai neb am dano, na'r modd i'w weithio, ond efe ei hun. Danfonai ei gais i'r llys fynychaf at ryw saint. Er enghraifft, at St. Pedr y danfonai offeiriad Caerfyrddin, oblegid efe oedd noddwr yr eglwys. Iddo ef yr oedd wedi ei chysegru. Elai St. Pedr o hono yntau, yn ddigon tebyg at Mair, i geisio ganddi hi gyfryngu, oblegid nid oedd neb yn meddu mwy o ddylanwad yn llys y

nefoedd na "mam Duw." Yr oedd pawb gan hyny yn chwenych cael ei hewyllys da hi. Fel hyn, trwy weithio at St. Pedr, a Mair, ac eraill o bendefigion y llys, anfynych iawn, os byth, y methai yr adyn tlawd yn ngrafanc angeu gael cardod o'r ystorfa. Yr oedd yn cael ei gyfiawnhau trwy weithredoedd y saint. Dyma'r ffordd oedd gan Eglwys Rhufain i gyfiawnhau pechaduriaid, ac o'r boncyff hwn y tyfodd cyfiawnder cyfrifol y Protestaniaid.

Chwi glywsoch son am Luther, ac mai efe oedd y diwygiwr cyntaf a lwyddodd i faeddu y Pab. Efe a'i gyd-ddiwygwyr ddyfeisiodd yr athrawiaeth sydd yn ffynu yn y wlad hon yn bresenol. Yr oedd yr hen athrawiaeth Babaidd yn rhy wrthun yn eu golwg, ac yn addas i'r oesoedd tywyll yn unig. Er hyny, credent yn yr angenrheidrwydd o gael cyfiawnder cyfrifol. Tybient fod, hyd yn nod y goreu o ddynion, yn annheilwng o faddeuant heb ryw haeddiant na feddent eu hunain. Am hyny, yn lle gweithredoedd da y seintiau, gosododd y Diwygwyr i fynu haeddiant Crist. Ffolineb yn eu golwg oedd ymddibynu ar y seintiau; twyll pabyddiaeth ydoedd. Yn Iesu Grist yn unig yr oedd haeddiant, a hyny am yr hyn a wnaeth ac a ddioddefodd. Yr oedd un dyferyn bychan o'i waed yn ddigon i achub bydoedd. Ei gyfiawnder Ef yn unig, ac nid gweithredoedd da y saint, oedd i gael ei gyfrif i'r pechadur. Derbyniwyd yr athrawiaeth newydd hon yn chwannog gan y Protestaniaid yn mhob gwlad, ac y mae wedi dàl ei thir hyd y dydd heddyw. Hi yw yr athrawiaeth boblogaidd.

"Ond onid yw'r Apostol," medd rhyw un, "yn arferyd y frawddeg *er mwyn Crist* yn ei Epistol at yr Ephesiaid, iv. 32., lle y dyweda, 'Byddwch gymmwynasgar i'ch gilydd, yn dosturiol, yn maddeu i'ch gilydd megys y maddeuodd Duw, *er mwyn Crist*, i chwithau'?" Yr ydym yn ateb nad yw'r Apostol ei hunan yn dyweyd dim o'r fath beth, ond mae yn wir ei fod yn cael ei wneyd gan y cyfieithwyr i ddyweyd hyn. "Fel y maddeuodd Duw *yn Nghrist* i chwithau" yw geiriau yr Apostol. Chwi wyddoch nad yn Gymraeg yr ysgrifenodd. Cael ei gyfieithu i'r Cymraeg mae wedi ei wneud, a hyny gan y sawl ag oeddynt wedi llyncu athrawiaeth y Protestaniaid y'nghylch cyfiawnder cyfrifol. Tybient mai wrth y frawddeg *yn Nghrist* y meddyliai yr Apostol *er mwyn Crist*, ac felly maent wedi eu gyfieithu, ac y mae'r camgyfieithad yn camarwain cannoedd na allant wybod yn well. Y gwir yw, brawddeg anysgrythyrol yw, "er mwyn Crist." Nid er mwyn Crist y dylem geisio maddeuant gan Dduw, ond er mwyn ei drugaredd.

DETHOLIAD BYR ALLAN O GATECISM.

Gofyniad.—A oes rhagor o Dduwiau nac un?
Ateb.—Nac oes. Nid oes ond un Duw.
G.—A oes rhagor o bersonau nac un yn Nuw.
A.—Oes. Y mae tri o bersonau.
G.—Pwy rai ydynt.
A.—Duw Dad, Duw Fab, a Duw Ysbryd Glan.

G.—Beth ydym yn galw y tri hyn?
A.—Y Sanctaidd Drindod.
G.—A oes tri o Dduwiau?
A.—Nac oes. Tri o bersonau ac un Duw.

Yn awr, gofynwn ninau pa ddyn neu blentyn a fyddai yn rhydd o ddylanwad addysg Drindodaidd allai byth gasglu rhyw beth o'r fath hyn o'r Testament. Fel y sylwasom ryw bryd o'r blaen, i wneuthur Trindodwr, mae yn rhaid dechreu ei addysgu gyda llath y fam.

DEDDFAU Y GREADIGAETH.

Y MAE y diweddar Dean Alford wedi ysgrifenu ar ddeddfau y greadigaeth fel a ganlyn, ac ewyllysiwn yn fawr weled golygiadau darllenwyr yr YMOFYNYDD ar waith y Deon. Son am y Bod o Dduw y mae.

Dywedir wrthym y dyddiau hyn fod pob peth yn cael ei reoli gan ddeddfau, ac nid gan berson; deddfau anhyblyg. Pa fwyaf y chwiliwn, meddir, yn fwy anhyblyg ac anghyfnewidiol, yr ydym yn cael, yw y deddfau hyny, a llai o debygrwydd yr ydym yn ei ganfod o ddim ag sy'n debyg i weithrediad personol. Trachefn, meddir, gadewch i ni chwilio y'mhellach nag erioed, nis gallwn ddyfod o hyd i un enghraifft gredadwy, o fewn cylch profiad dynolryw, o'r deddfau anhyblyg hyny yn cael eu tori, drwy weithrediad personol. Ac felly, allan o'r defnyddiau hyny y gwneir magnelau yn erbyn caerau ein ffydd.

Gwaeddir allan, yn ddirmygus ac yn orfoleddus, yn ein erbyn, fod credu mewn un ewyllys bersonol, benarglwyddiaethol, yn creu, llywodraethu, ac arwain, yn agwedd meddwl plentynaidd diamheuol na ddylai yr un dyn resymol ei chynal. Dywedir hefyd mai peth ffol anesgrifiol ydyw dychymygu y gall un dymuniad na gweddi o'n heiddo ddylanwadu ar, nac estyn at, Fod penarglwyddiaethol,—os oes yna Un, meddir; ac felly y'mlaen. Pa fwyaf y chwiliwn, meddant. Wel, beth pe bai ni ddim yn chwilio llawer? Beth pe baem yn dechreu gyda rhyw beth syml,—syml iawn, yn wir?

O'r holl ddeddfau anghyfnewidiol hyn, nid oes yr un mor adnabyddus i ni a deddf ad-dyniant *(gravitation)*, yr un drwy ba un y delir y ddaear yn ei chylch, a thrwy ba un y syrth careg i'r llawr. Dyna i chwi ddeddf anhyblyg, anghyfnewidiol, yn gweithredu y'mhob man dan reol o gyfartaledd, adnabyddus a diwahaniaethol—o rym i bellder.

Pan welaf gareg yn syrthio, yr wyf yn gweled deddf yn gweithredu ag nas gall, meddir, yr un ewyllys bersonol ymyraeth â hi. Ond, beth os rhoddaf allan fy llaw a rhwystro'r gareg? Beth, pan y mae careg yn gorwedd yn llonydd ar y llawr, yr ymgrymaf ac y cymeraf y gareg i fyny? Pa beth a wneir y pryd hyny?

Gadewch i ni sylwi yn fanwl, canys y mae'n bwysig iawn i'n ymchwiliad presenol.

Y mae y ddeddf, a alwant yn anhyblyg ac anghyfnewidiol, yn ddieithriad ac annherfynol, yn cael ymyryd â hi.

A pha fodd? Trwy ddeddf anhyblyg arall? Nage.

Nid oes dim i'm gorfodi i roddi allan fy llaw, neu i ymgrymu, nac i

godi'r gareg. Y mae y deddfau a elwch yn osodedig, ansymudol, ac y'mlaen, yn cael ymyraeth a hwynt â gweithrediad rhyw beth hollol annibynol ar hwy—drwy ewyllys bersonol, ewyllys yn cael ei hymarferyd, nid drwy yr un ddeddf osodedig, mewn un modd, ond yn unig wrth bleser person.

Ac felly mae genym yma ar unwaith, a chenym yn ein profiad mwyaf cyffredin bob dydd, oruchwyliaeth wahanol oddiwrth ddeddfau natur, heb fod yn rhwymedig gan yr un o'r deddfau hyny, ac yn gweithredu arnynt o le uwch na hwynt. Ac y mae genym filoedd a miliwnau o'r fath oruchwylwyr yn gweithredu ar yr holl o natur yma ar y ddaear. Ac nid oes eisiau goruchwylwyr o un math mewn graddau eraill o greaduriaid heblaw yr eiddom ni.

Y mae gan yr anifeiliaid sydd o danom ryw beth fel ewyllys, er nad oes ganddynt bersonoliaeth; ac y mae ganddynt allu i weithredu ar natur fel sydd genym ni. Os cymerir y gareg i fyny gan gi, y mae yna, yn union, yr un ymyriad a deddf ad-dyniant, a hyny gan yr hyn sydd uwchlaw ac annibynol ar fater,—sef bywyd.

Ac felly y mae profiad pob dydd yn ein harwain i fyd arall, yr hwn nid yw yn cael ei lywodraethu gan, neu nid yw yn cael ei reoli ond mewn rhan gan, y deddfau a dybir sydd yn anghyfnewidiol ac yn ddiwahaniaethol.

Gadewch i ni yn awr, am foment, edrych ar y byd newydd hwn a wawriodd arnom. Y mae yma ewyllys bersonol, neu ei dynwarediad: y mae yma, hyny yw, ewyllys, yn ei hagweddau uwchaf neu isaf, yn gweithredu er gwaethaf, yn ymyraeth â, yn trin fel pe na baent, ddeddfau, y deddfau anghyfnewidiol, pa rai a dybir sydd yn rheoli pob peth. A oes genym hawl, ar ol i ni ddarganfod yr enghreifftiau uchod, i aros gyda dyn heb esgyn i fyny?

Onid yw yn fwy na thebygol fod graddau y creaduriaid yn myned y'mlaen, yn esgyn? a bod yn y dirgelion hyny o eiddo natur na roddwyd i'n llygaid ni eu gweled, fwy o allu ewyllys bersonol nag a welwn hyd yn nod yn ein profiad beunyddiol?

Beth bynag, am hyny, yr ydym wedi enill cymmaint ag a welwn yn y brawddegau uchod drwy ein hymchwiliad. Ie, yr ydym wedi gweled fod yna ryw beth yn gallu ymyryd â, ac atal, deddfau natur, yn ol ac wrth ei bleser ei hun—sef ewyllys. Ac felly pan ofynwn i ni ein hunain,—yr hyn a wna bob meddwl ystyriol,—pa beth a allasai ddyfod a'r deddfau naturiol, rhyfeddol hyn i fod,—deddfau ag yr ydym yn eu gweled mewn gweithrediad o'n hamgylch, un ateb yn unig sydd yn bosibl i ni. Ni a wyddom am un oruchwyliaeth, ac am un yn unig, yr hon sydd yn rhagori ar y deddfau hyn; a'r oruchwyliaeth hono ydyw ewyllys person. Ni ddarfu i'r deddfau hyn, i'r drefn bresenol o bethau, darddu yn hunan-sefydledig. Nid oes gan yr un ddeddf awdurdod arni ei hun; ac nid oes gan fater yr un swydd arall ond i ufuddhau i ddeddf. Y mae rhyw beth wedi rhoddi dechreuad i, y mae rhyw beth yn cynal, y byd a'r hyn oll sydd ynddo. Ac y mae ein profiad bob dydd yn ein dysgu fod yn rhaid mai ewyllys a gweithrediad person yw y rhyw beth hwnw. Ac felly, nid peth i'w daflu ymaith fel chwedl wrachiaidd ydyw gallu creawl a chynaliol,—i'w daflu ymaith, meddaf,

pan ddaw dynolryw allan o'u plentyndra; ond rhyw beth ag sydd yn argyhoeddiad anocheladwy yn tarddu o'n profiad beunyddiol.

Ac nid oes eisiau ond cymeryd yr un ymresymiad gam y'mlaen i ddangos i ni mai ewyllys un person Penarglwyddiaethol a ddygodd i fod, ac sydd yn cynal yr holl greadigaeth o fater ac o ysbryd.

Y mae yn beth hynod yn yr hen fyd paganaidd, yr hwn a briodolai dduwiau i bob ffrwd a phren, y foment y dechreuodd meddyliau ystyriol i ymarferyd eu nerth, fod yr holl dduwiau hyny wedi diflanu, ac mai barn pob meddwl galluog ydoedd fod yna ddim ond un Duw, yn llywydd nef a llawr. Ond gadewch i ni yn awr ystyried y'mha le yr ydym yn sefyll yn ein hymresymiad. Ewyllys person ydyw yr unig ddechreuad dealladwy o'r byd hwn ac o honom ni, oblegid yr oruchwyliaeth hono yw yr unig un a wyddom am dani ag nad yw yn ddarostyngedig i'r deddfau sydd yn rhwymo mater. Yn awr, wedi caniatau y pwngc mawr yna, y mae llawer o rai ereill yn canlyn oddiwrtho. Os o'i ewyllys yr oedd y Bod Goruchaf yn creu,—os o'i ewyllys y mae yn cynal, yna ni a allwn farnu am Ei gymeriad yn ngholeuni y deddfau y mae Efe wedi eu sefydlu, a pha rai y mae Efe yn cynal mewn gweithrediad. Yr ydym yn gweled y deddfau hyny yn rhai cymhwys i ddiogelu trefn, bywyd, dedwyddwch, prydferthwch. Y mae Efe, gan hyny, yn Fod ag sydd yn caru ac yn cymeradwyo y nodweddion hyny; yr Hwn sydd yn ewyllysio i drefn fod, a dedwyddwch, harddwch, yn Ei greadigaeth.

Ond mwy na hyn: y mae deddfau yn ein meddyliau a'n hysbrydoedd ni, mor ansymudol a diwahaniaethol a'r rhai sydd yn gweithredu ar fater; ac oddiwrth nodweddion deddfau ein meddyliau ni, gallwn hefyd farnu am gymeriad yr Hwn a'u hordeiniodd. Yn ein hysbrydoedd ni nid oes dim gorphwysfa mewn drygioni. Trwy ba ffordd bynag y mae drygioni, drwy wyrdroad ein natur, wedi dyfod yn arferiad genym, nid yw, ac nis gall fod, yn naturiol i ni. Tystiolaeth y galon fwyaf llygredig ydyw i ni gael ein gwneuthur yn dda, ac yn tueddu at ddaioni.

Hefyd, yr Hwn a'n gwnaeth ni a ewyllysiodd i ni fod yn dda. Os gofynwch—Paham, ynte, nad ydym yn dda? Nid yw'r ateb y'mhell, er na wnai ef ddihysbyddu anhawsderau y pwngc. Ydyw, y mae'r ateb yn agos ac yn hawdd. Am a wyddom ni, fe allai yr oedd hi yn angenrheidiol, i weithrediad personol, i adael i'r ewyllys fod yn rhydd—nid yn rhwym i'r un cyfeiriad arbenig, pe bae y cyfeiriad hwnw, hyd yn nod, at ddedwyddwch a daioni. Ond y mae yr ystyriaeth hon yn perthyn i safle pellach o'n pwngc presenol.

Yr ydym yn awr yn sefyll yn y pwynt canlynol, sef, yr ydym yn cael ein hunain yn byw bywyd, yn bresenol, nad yw ei natur a'i ddyben yn anadnabyddus i ni, mewn cyferbyniad i fywyd dyfodol ag sydd yn anadnabyddus; ac yn y bywyd presenol ac adnabyddus hwn yr ydym yn cael ein hunain mewn cyffyrddiad a pherthynas ag Awdwr Mawr ein bodolaeth, a chynaliwr ein bywyd—sef Duw. Yn awr, y syniad diweddaf yna ydyw y pwngc y dymunwn wasgu arnoch chwi.

Birkenhead. BEREAD.

[Yn gymmaint âg i fod Beread am olygiadau darllenwyr yr YMOFYNYDD ar yr erthygl hwn, caniataer i ni, fel un, i sylwi fod yr ymresymiad yn

anwrthwynebol. Chwenychem weled gwadwyr gweithredoedd nerthol Crist yn gwneud cynyg ar ddymchwelyd *argument* y Deon.—GOL.]

[Tystia barnwyr prydyddiaeth na fedd ein llenoriaeth gyfansoddiad ardderchoccach o ran iaith a meddylddrychau, na'r cyfieithiad canlynol o "Gray's Elegy" gan yr hen fardd godidog o Gastellhwel. Yn gymmaint gan hyny ag i fod cannoedd o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD na chawsant erioed gyfleusdra i ddarllen y cyfansoddiad, ac a fyddant yn ddiolchgar am dano, gobeithio y bydd yr ychydig gyfeillion sydd mor ffortunus a meddu copi o "Delyn Dewi"—lly'r sydd wedi myned yn brin—mor hynaws a'n hesgusodi am gyhoeddi y "Myfyrdod" yn ein Misolyn. Nis gall neb, debygem, ddarllen y cyfieithad hwn yn ystyriol, a "Chri y carcharor dan farn marwolaeth," heb ddeirlyn budd oddiwrthynt ag y mae yn hawddach ei deimlo na'i ddesgrifio. GOL.]

MYFYRDOD AR EINIOES AC ANGEU,

A YSGRIFENWYD MEWN MYNWENT, YN Y WLAD, YM MRIG YR HWYR.

Wedi ei droi o Saesonaeg T. Gray.

Dewch goronog a sidanog a galluog yma'n llu,
Rhybudd prysur, addysg gywir, a iawn synwyr i chwi sy,
O wel'd bienin a chardotyn, yn y gweryd heb ddim gwân,
A'r frenhines a'r fegeres fel dwy gares o'r un grân.

Daccw ddolef y ddyhudd-gloch,
Yn oer ganu cnull y dydd,
Daccw 'r ychain gwâr lluddedig,
Yn d'od adre' i fyn'd yn rhydd,
A'r llesg arddwr yn ymlusgo,
Ar eu hol o glun i glun ;
Pawb, gan ado 'r byd a'i ffwdan,
Ant i orphwys ond fy hun.

Hyfryd liwiau 'r bryniau a'r bronydd,
Gerddi a gwaunydd gyll eu gwawr,
Prudd ddistawrwydd sy 'n gyffredin,
Heb ddim lleisiau ar y llawr,
Oni chlywir ambell chwilen,
Yn ehedeg heibio 'n chwyrn,
A rhyw ddadwrdd pell o'r gorlan,
Gan y praidd yn curo eu cyrn.

Neu 'r ddylluan, wrthi hunan,
Yn llwyn iorwg pen y twr,
Wrth y lleuad a wna achwyniad,
Wban irad, oer ei stwr,
Ar rai eger ddelo 'n agos,
At ei gwyrdd-ddail, dawel dy,
I wneyd gormes ar un dalaith,
O'i llywodraeth helaeth hi.

Rhwng y llan a'r hen geubrenni,
Hyd yr iwen ddulas draw,
Ffordd mae'n gymmysg briddgoch grygiau,
A glâs dwmpathau ar bob llaw,
'Mhob i stafell gul y dodwyd
Holl hen-deidiau pobl y plwy',
Lle gorweddan' yn y grauan—
Ni ddychwelan' yma mwy !

'Dall nac awel ber y boreu,
Na gwaedd ceiliog uchel gân,
Na whit gwenol lon foreuol,
Yn y lwfer uwch y tân,
Na chorn helwyr, bloedd medelwyr,
Clych, taranau, na dae'r-gryn,
Byth ddyhuno rhai mewn amdo,
Sy yma heno 'n drwm eu hun.

Trefnu 'r bwthyn, 'sgubo 'r aelwyd,
Nynnu tanllwyth goleu cry',
Ni wna 'r wreigian mwy brydnawnau,
I roesaw tawel wr y ty;
Ei fabanod i'w gyfarfod
Mwy ni redant yn gyttun,
Mewn ymruson am ei gusan,
Mwy ni ymglymman' am ei glun!

Dan eu dwylaw grymmus cwympai
Gwair y dolau, ac yd y ma's,
Fel ymenyn rhwygai 'r aradr
Rhwng eu breichiau 'r gwndwn glàs;
Arf os coden', blodau 'r coedydd
Isel blygen' bennau o'u bla'n;
Ac mor ddifyr llon y canent,
Gynt pan yrrent ar y wa'n!

Nac edryched pendefigion,
Beilch a gwychion gydâ gwawd,
Ar y swyddi a'r difyrrwch,
Sydd mewn cyflwr isel tlawd;
Ac na chwardded gwyr uchelfrig,
Mawr bonheddig, gwych eu moes,
Mor anhyglod ac anhynod
Ydyw hanes fèr eu hoes.

Beth yw mawrfri, uchel achau,
Rhwysg a mawredd bonedd byd?
Rhyw oferedd sael di-sylwedd,
Gwynt a gwagedd oll i gyd,
Na'd all estyn un fynudyn,
Ar eu heinioes hwy na 'u hedd;
Holl ffyrdd llwyddiant a gogoniant
A ddibenant yn y bedd!

Feilchion peidiwch, na chyfrifwch
Ar y meirwon yma 'n fai,
Am nas dyry coffadwriaeth
Feini mynor i'w coffâu,
O fewn eglwys fawr gadeiriawl,
Neu ryw gapel eurwych glan,
Lle mae'r organ gyda 'r eurgor,
Yn dyrchafu 'r ddwyfol gan.

A all hanes o'i hen achau,
A'i lawn ddelw o wyngoch liw,
Gyda mawrglod uwch ei feddrod,
Wneyd y marw mûd yn fyw?
Pwy hyfrydwch all anrhydedd
Roddi i gelain oer o bridd,
Neu beroriaeth twyll a gweniaeth,
I fyddar-glust angau prudd?

Yn y graian yma gorwedd,
F' allai lawer a fu'sai lawn
O wir rywiog fflamiau 'r awen,
A phrydyddawl ddenol ddawn,
Dwylaw ag all'sai lywio teyrnas,
A theyrn-wialen ar ryw thrôn,
Dawn a dwylaw diwnai delyn
I lesmeiriol dyner dôn.

Llyfr dysgeidiaeth ac hynafiaeth,
A naturiaeth môr a thir,
Ni's darllenodd, ni's agorodd,
Ac ni's gwelodd un o'r gwyr ;
Gauaf gofid, dros eu bywyd,
Lethai eu hyspryd gwych i lawr,
Ac a rewai fywiol ffrydiau
Swydd gynheddfau 'u henaid mawr.

Y mae 'r gemmau a'r perlau puraf,
Goreu 'u lliwiau îs y llo'r,
Dan y tonnau 'n gudd rhwng creigiau,
Yn nyfnderoedd mawr y môr,
Ac mae'r blodau tecca 'u lliwiau,
Lle na's gwelir byth mo 'u gwawr !
Ac yn tannu 'u pêr-aroglau,
Lle na sylwa neb mo 'u sawr.

Yma f' allai caid rhyw Hampden,
Doeth, a chalon ddewr o ddûr,
A geryddai un gormeswr,
Fynnai dreisio darn o'i dîr,
A rhyw Filtwn heb ei fawrglod,
Mewn distawrwydd îs ein tra'd,
Ac ail Gromwel gwrol, grymmus,
Rhydd o 'lanas pawb o'i wlad.

Cael clodforedd yn y senedd,
Am areithiau dawnus doeth,
Llwyr ddirmygu mil yn gwgu,
Neu 'n annelu 'r cleddyf noeth,
Tannu llewndid dros ei genedl,
Gweled gwlad yn gwenu ei glod,
Oeddynt freintiau nad allasai
I un o'u graddau 'n bosib' dd'od.

Tlodi os nadai rhai rhinweddau
Rhag cyrhaeddyd eitha 'u rhôd,
Tlodi a lethai fwy camweddau,
Mewn ll'wetheiriau dan ei thro'd ;
Ni chlyw'd iddyn' ddringo gorsedd,
Drwy gelanedd, mwrddra a gwa'd,
Na chau clust a drws tosturi
I galedi a gweddi gwlad.

Gwadu'r gwir, a thyngu'r celwydd,
Heb na syndod, ofn na chryd,
Na llwyr ddiffodd gwrychion olaf
Gwir onestrwydd gyda'r gwrid,
Na gwastraffu pêr-aroglau,
Ac auraidd ddoniau 'r awen ddrud,
Yn aberthau ar allorau
Anghyfiawnion beilchion byd.

Pell o 'mhyrraeth ffol a hiraeth
Am arglwyddiaeth ar eu gwlad,

Gyda sobrwydd a boddlonrwydd,
Ymostyngen' at eu 'stad ;
Mewn distawrwydd, gostyngeiddrwydd,
Cymmedrolder hoff a hedd,
Yn ffordd dawel cyflwr isel,
Byth y cadwen' hyd y bedd.

Rhag i'w hesgyrn gael eu damsing,
Gydà dirmyg gan un dro'd,
Gerllaw iddyn', er eu coffa,
Mae rhyw arwydd in' a nôd,
A diryfau heb iawn fesur,
A cherfiadau gwael dilûn,
Ag sy 'n galw am ddeigryn mwynaidd,
Wrth fyn'd heibio gan bob un.

'R oed a'r enw, a'r dydd bu farw,
Ar garreg arw lwyd ddi-ran,
A gair yma 'n lle cof feini,
A chanmoliaeth peraidd gan ;
Cyngor prysur ma's o'r 'sgrythyr
Ar ei godre' gwedi'n gawn,
I rybuddio pawb el heibio
Lwyr ddiwygio a marw 'n iawn.

Pwy aeth gydâ llawn foddlonrwydd,
Yn dragywydd fod dros go',
Maes o fywyd blin na hyfryd,
I'r ddieithriol fythol fro,
Heb drom galon dwym hiraethlon,
A throi 'lygon lawer gwaith,
Tua chaerau'r dirion gartre'
Lon adawai, 'nol o'i daith ?

Nid oes adyn yn ymado,
Na ddymunai i gyfaill mwyn,
Wedi cauad ei ddau lygad,
Roddi 'chenaid fèr a chwyn ;
I dir ango' wedi i'r angeu
Fyn'd a'i gelain yn ei gôl,
Hoff yw ganddo, pan na's byddo,
I rai wylo ar ei ol.

Titheu heno roddi 'r hanes,
Am y meirw gwael di-fri,
Ym mhen amser, os rhyw landdyn,
O dy dymmer dyner di,
Ddigwydd ddyfod gerllaw 'th feddrod,
Mewn myfyrdod pruddaidd maith,
A chwennychu 'n fawr gael gwybod
Hanes ystod fèr dy daith :

Hen wr penwyn, f' allai dd'wedai,
"Mynych gwelsom gyda'r wawr,
A'i frasgammau yn croesi'r caëau,
Ac yn torri'r gwlith i lawr,
A chan esgyn yn dra gwisgi,
Hyd y fron yn tithio 'n dyn,
I rocsawi haul y dwyrain,
Yn y boreu, ar y bryn."

"Pan y byddai ei gwres gadarnaf
Ar ein dae'ren hanner dydd,

Yn y gwaelod tawel isod,
Ar lan cornant yn y cûdd,
Ar ei wyneb yno 'n gorwedd,
Dan dew goeden caid y gwr,
Gan fud syllu ar ei ffrydiau,
Yn gwrando dwndwr bêr y dwr."

"Gerllaw 'r goedwig draw brydnawnau,
Rhodiai ar hyd y gwndwn glan,
Weithiau 'n gwenu wrth fwmial canu
Rhyw rigymmau wnai o gan ;
Weithiau 'n llibyn heb un englyn,
A lliw 'r ddae'ren ar ei rudd,
Gan drwm ofid, neu fawr gariad,
Wedi troi 'n anobaith prudd."

"Ar ben boreu aeth yn eisieu
Ar y bryn a than y cudd,
Ac o'r llwybrau ac a rodiai ;
Fe brydnawnau—daeth ail ddydd ;
Ond y llygaid gynt a'i gwel'sent,
Mwy nis gwel'sant byth mo'r gwr,
Nac uwch gelltydd, nac ar faesydd,
Nac mewn dolydd ym min dwr."

"Ar ei elor druan drannoeth,
Gyda galar dygwyd e',
'N araf chwarian hyd y dreflan,
Gan wyr mwynlan i'w oer le,
Dan y garreg, gerllaw 'r iwen,
Man lle gorwedd 'nawr mewn hedd :
Tyred yma, (gwn y medri,)
Darllen im' ei 'sgrifen fedd."

EI 'SGRIFEN FEDD.

Ar oer arffed dae'r i orphwys,
Yma dodwys bwys ei ben,
Mab heb olud nac anrhydedd,
Nac awdurdod dan y nen ;
Dawn dysgeidiaeth a fwyn wenai
Ar ei enedigol ddydd,
Pwyll a phrudd-der ar bob amser,
A artrefen' ar ei rudd.

Hael ei galon, rhwydd ei roddion,
Heb ddibenion gweigion gau,
Rhoes Rhagluniaeth daledigaeth,
Yma 'n helaeth i'w mwynhau ;
O dosturi i drueni,
Fe roi allai—dagrau 'n lli' ;
Gan y nefoedd fe dderbyniodd
A ddymunodd, cyfaill cû.

Mwy na ddygwch o'i rinweddau,
Na 'i wendidau i oleu'r dydd,
O'r tywyllwch a'r dirgelwch,
Lle gorweddan' oll yn gudd,
Gan hyderu am iechydwriaeth,
A thrugaredd ryfedd rad,
O fawr haelder Duw 'r uchelder,
Sy fel mwynder tyner tad.

"TELYN DEWI."

YR EGLWYS SEFYDLEDIG.

Bydded yn hysbys i'n darllenwyr nad oes genym ni un math o withwynebiad i'r eglwys hon fel eglwys enwad o Grist'nogion, ond yn unig fel Eglwys *Sefydledig*. Braint pob enwad, a phob dyn, yw rhyddid i goleddu y syniadau a fynont, ac addoli fel a phryd y mynont, cyhyd ag na fyddont, wrth arferyd eu rhyddid, yn niweidio eraill o'u cyd-ddeiliaid. Os yw yr enwad Esgobol yn dewis darllen credo Athanasius yn ei addoliad ddeng waith yn y flwyddyn, neu ddeng waith yn y mis, neu ddeng waith bob gwasanaeth, mae iddynt gyflawn roesaw i wneyd hyny. Os yw yn dewis credu fod ei Esgobion a'i Offeiriaid yn olynwyr yr Apostolion, eu bod yn meddu awdurdod i faddeu pechod y claf ar ei wely, neu allu gwyrthiol i droi y bara a'r gwin yn wir gorph a gwaed Crist, nid yw hyny ddim i ni. Nid ydym ni yn gallu gweled nad oes gan yr Esgobwyr gystal hawl i'w *shibboleth*, ag sydd gan enwadau eraill i'w *shibboleth* hwythau. O'm rhan ni cyneuent ar eu hallorau ganwyllau ganol ddydd, os y meddyliant fod hyny yn boddio Duw. Gosodent i fyny yn eu tai addoliad y crogau a'r delwau a fynont. Boddied eu Offeiriaid eu mympwy â gwisgoedd mor hyll a chwerthinadwy ag y gallont. Nid yw y pethau hyn ddim i ni. Y mae ganddynt gyflawn ryddid i addoli fel y byddont yn dewis. *Ond* y mae un peth, ac un peth yn unig, a fynom ni â'r Eglwys hon, a hyny yw ei chyssylltiad â'r Wladwriaeth neu'r Stâd. Yr ydym yn ystyried nad oes gan y Stâd ddim hawl i roddi goruchafiaeth wladol a chymdeithasol i weinidogion un enwad mwy na'i gilydd, ac na all y Stâd wneuthur felly heb niweidio, nid yn unig amgylchiadau bydol, ond hefyd ddylanwad gweinidogion eraill fel cenadon Crist. Ni all y Stâd dderchafu un *class* o weinidogion heb osod ar weinidogion pob enwad arall ryw fath o warthnod ag sydd yn cyfyngu eu cylch o ddefnyddioldeb. Mae hyn yn anghyfiawn yn y Stâd yr hon a ddylai fod, gyda golwg ar bob enwad crefyddol, yn hollol ddiduedd. Dyledswydd y Stâd yw amddiffyn bywydau, meddianau, a rhyddid, pawb o'r deiliaid heb ochri i un enwad yn fwy na'r llall. Unwaith y dechreua hi ymyraeth â chrefydd y deiliaid, mae yn myned allan o'i dyledswydd. Gadawed hi i bob enwad drefnu ei grefydd fel y byddo yn dewis, mor belled ag y byddo yn gwneuthur felly heb beryglu heddwch y wlad. Os yr amcana beryglu yr heddwch, neu niweidio ei gyd-ddeiliaid, y pryd hwnw yn unig mae i'r Stâd gyfryngu. Heblaw hyn, mae yn anmhosibl fod rhyddid crefyddol yn berffaith mewn un wlad lle y byddo Eglwys Sefydledig yn cael ei chynal. Nis gall y Stâd fod yn ddiduedd, ac nis gall offeiriadaeth uchafol lai na dylanwadu i gynal i fyny fesurau a chyfreithiau gormesol. Am hyny yr ydym yn gweled fod Esgobion yr Eglwys Sefydledig o fewn y Senedd, a'i hoffeiriaid y tu allan, yn bod, ac wedi bod erioed, o ochr gormes. Ni fu ysgrif o blaid rhyddid nemawr un amser o flaen y Senedd heb gael ei gwrthwynebu gan yr offeiriadaeth uchafol. Beth yw'r achos o hyn? Eglwys Sefydledig yw'r achos. Gwyr yr offeiriadaeth fod pob mesur o ryddid yn milwrio yn erbyn eu heglwys fel sefydliad gwladol. Yr ydym ni gan hyny yn dàl nas gall fod cyflawn ryddid crefyddol mewn un wlad lle byddo offeiriadaeth uchafol.

Hefyd mae eglwys ac offeiriadaeth uchafol yn y wlad hon yn bresenol yn terfysgu heddwch cymdeithasol ac yn rhwystr i Grist'nogaeth ; ond ni chawn ymhelaethu ar hyn yn bresenol. Dymunwn gan hyny i'n darllenwyr ddeall, pan fyddom ni yn ysgrifenu yn erbyn yr Eglwys Sefydledig, ein bod yn gwneud hyny nid yn ei herbyn fel eglwys enwad o Grist'nogion, ond fel sefydliad gwladol. Ystyriwn y byddem yn bradychu ein dyledswydd pe na wnelem ein goreu i oleuo meddyliau dynion ar y pwnc o Eglwys Sefydledig. Mae pwysigrwydd y pwnc hwn yn cynnyddu bob blwyddyn, ac ni fydd heddwch crefyddol yn y wlad hon mwyach nes y byddo pob llarp o orfaelaeth grefyddol wedi ei ysgubo ymaith. Ni gawn, am hyny, ddychwelyd at y pwnc yn awr ac yn y man.

Y Senedd.

Y Senedd —Agorwyd hi ar y saithfed o'r mis diweddaf—Chwefror—trwy ddarllen, fel arferol, yr hyn a elwir "Araith y Frenhines," er y gwyddus o'r goreu mai nid ei haraith hi ydyw, ond araith y Weinyddiaeth ar y pryd—Whig neu Tori—fel y digwyddo. Fel craill o'i blaen, nid oes fawr o addysg i gael oddiwrthi. Y peth cyntaf braidd fynychaf yn yr araith frenhinol yw yr awgrymiad i'r wlad i ffeindio'r arian—oblegid nid oes dim heb yr arian. *The principal estimates for the coming year have been prepared. They will be at once laid before you.* Y pwnc mwyaf pwysfawr, chwi welwch, yw yr arian—*will be laid before you at once*, oblegid mae llawer yn dysgwyl. Yna hysbysir fod y 27 o'r mis wedi ei bennodi i roddi diolchgarwch am welliant y Tywysog. Mae y seremoni i gymmeryd lle yn St. Paul, yr hon sydd i gael ei haddurno i'r perwyl, a'r hyn a gostia i'r wlad oddeutu ugain mil o bunnau! Yna hysbysir ein bod mewn heddwch â'r holl fyd, ac nid peth bach yw hyny pan ystyriom gan bwy mae'r byd yn cael ei lywodraethu. Yn nesaf sylwir fod y wlad yn dawel—dim llawer o gyflafanau yn cymmeryd lle nac yn Brydain nac yn y chwaer ynys. Nid oes dim "Scotch Cattle" yn ein gweithfeydd, na "Beca" yn Sir Gaer, ac nid yw Pat, o hono yntau, yn saethu cymmaint trwy'r perthi. Dywedir rhywbeth am y Cyfammod Masnachol rhyngom â'n cymydogion yr ochr draw i'r Cyfynfor Seisnig. Ni wyddant b'le i droi eu wynebau, na pneth i wneud, am arian i dalu y hyny maent am osod mwy o ddirwy ar ein nwyfau masnachol. Yn nesaf, 200,000,000 punnau i Bismarck, yr hwn sydd â'r fflangell uwch eu penau, am mae yn debyg fod caeswasiaeth yn myned yn mlaen yn y Weilgi Ddeheuol, ac i fod yn ofynol i osod terfyn ar y fasnach. Mawr ddylai fod cywilydd ein llywodraethwyr, â chymmaint o longau rhyfel ganddynt yn crwydro yn segur ar hyd y moroedd y'mhob parth o'r byd. Yna mae yn canlyn linell neu ddwy y'nghylch ein hanwyl frawd Jonathan, yr hwn sydd yn anesmwyth am nad yw yn cael ei dalu am y golled a achoswyd gan yr "Alabama." Meddyliwyd ychydig yn ol, fod y mater hwn ar y ffordd i gael ei setlo, ond ymddangys yn awr fod y peth mor bell ag erioed. Dau can miliwn yw *bill* yr Arlywydd Grant. Dywed rhai pedwar can miliwn! Pa fodd mae ei setlo, anhawdd yw gwybod. Digon tebyg y bydd yn rhaid gwerthu yr holl ynys yma os ceir rhyw un i'w phrynu. Os na allwn dalu dichon y bydd yn rhaid i ni ddisgwyl clywed magnelau ein brawd yn rhuo ryw foreu yn y Cyfyngfor Seisnig, a ninau, pobl Caerfyrddin, i gael y pleser o weled ei *shells* yn ffurfio math o *barabola* arddcrchog yn yr awyr uwchben ein tref, ac yn disgyn yn Nott's Square, er mawr ddifyrwch y gwragedd a'r

plant. Ond i ddychwelyd at yr araith. Dywedir fod y Weinyddiaeth yn bwriadu dwyn y Ballot eto o flaen y Ty mor gynted ag y fyddo yn bosibl. Hefyd Ysgrif i osod ein tafarndai mewn gwell trefn; Ysgrif i ddiogelu bywydau ein mwnwyr; ac Ysgrif Addysg i'r Scotiaid. Dyna sylwedd yr "araith o'r orsedd."

Y Tugel.—Dygwyd yr ysgrif hon yn awr yr ail waith o flaen y Ty ar yr wythfed o Chwefror, gan Mr. Forster, ac aeth trwy yr ail ddarlleniad y nos Iau canlynol gyda 58 o fwyrif. Am hyny danfonir hi i'r Arglwyddi eleni yn gynnar fel na allont ddyweyd y tro hwn ei bod yn rhy ddiweddar yn y seddiad i ystyried mesur mor bwysig i'r wlad. Mae'r ysgrif bresenol yn dra thebyg i'r un llynedd addieithr un peth Yr ydys wedi gadael allan yr adran i orfodi y Bwrdeisdrefi a'r Siroedd i dalu traul yr etholiad. Mae yn ddrwg gan lawer hyn. Nid oes dim amheuaeth na allasai Mr. Gladstone gario yr adran hwnw trwy'r Ty pe buasai yn dewis. Y canlyniad fydd, na all neb sefyll etholiad, gan nad faint ei gymmwysderau, oni fydd ganddo goden drom. Camsynied o'r mwyaf yw meddwl fod y Senedd bresenol, mwy nac ereill o'i blaen, yn cynrychioli neb ond eu codeni eu hunain. Cwyddant oni bai eu codeni trymion na fyddent byth yno, a gwyddant hefyd pe pasid yr adran crybwylledig, na thywyllai neb o honynt ddrws St. Steven ar ol y Senedd bresenol. Cafodd Mr. Gladstone gyfleusdra i wneud cymwynas i ryddid a chyfiawnder, ond dewisodd ogwyddo at ochr yr arian. Pa fodd bynag, bydd yn dda cael y tugel. Hi wareda ugeiniau o'r caethiwed y maent ynddo yn bresenol, hyny yw os bydd y dull a drefnir y fath ag i sicrhau perffaith ddirgelwch. Gadewch i ni gael gobeithio mai felly bydd, oblegid mae ein ffydd yn rhyddfrydiaeth llywodraeth Mr. Gladstone yn dechreu gwanhau, nid yn gymmaint ynddo ef ei hun ag yn rhai o'r sawl sydd o tano, i'r rhai yr ydym yn ofni ei fod yn rhoddi gormod o le. Yr ydym bron yn credu mai hwy fu yr achos iddo wrthod yr adran grybwylledig. A feiddia yr Arglwyddi ddongos y drws i'r ysgrif hon eleni fel y gwnaethant llynedd? Ni gawn weled.

Ysgrif y Fonwent.—Da genym hysbysu i'n darllenwyr fod Mr Osborne Morgan wedi dwyn yr ysgrif hon eto o flaen y Ty, ac y mae wedi myned trwy yr ail ddarlleniad, y mwyrif yn 71, ond y perygl yw fod Ty yr Arglwyddi o'i blaen. Nid oes braidd eisiau dyweyd mai dyben yr ysgrif yw caniatau i weinidogion Anghydffurfiol i ddarllen claddedigaeth yn monwent y plwyf. Hyd yma nid oes rhyddid i neb wneud hyn ond i'r offeiriad yn unig. Dichon mai Anghydffurfiwr sydd yn cael ei gladdu. Nid yw ddim gwahaniaeth. Yr offeiriad sydd i ddarllen uwchben y bedd, hyd yn nod pe fyddai gweinidog y trengedig y'mhlith y gwyddfodolion. Nid oes rhyddid iddo yno ddyweyd gair. Nid yn anfynych mai offeiriaid wedi nacau claddu, am na chafodd y trengedig ei fedyddio, ac felly yn clwyfo teimladau perthynasau y marw. Digwyddodd hyn yn ein cynulleidfa ni yn Lloegr wedi i ni ymadael. Gwrthododd yr offeiriad gladdu un o'r aelodau am mai Undodwr ydoedd! Cawsai ei osod yn y bedd mor ddiseremoni a phe fuasai gi neu asyn oni fuasai i'w weinidog ddarllen ar y ffordd tu faes i'r fonwent. Mae pethau o'r fath hyn yn rhy ddrwg mewn gwlad a broffesa fod yn Grist'nogol. Gwir i fod gan lawer o Anghydffurfwyr Cymru a Lloegr fonwentydd wrth eu heglwysi eu hunain, ac i fod *cemetries* yn awr yn amlach na chynt, ond nid yw hyny yn rheswm dros barhad y gormes hwn, ac y mae llawer o Anghydffurfwyr na feddant un man i'w claddu ond yn monwent y plwyf, ac y mae gan lawer ddymuniad i gael gorwedd gyda'u teidan. Mae ganddynt hawl i gael eu claddu yn monwent y plwyf gan eu gweinidog eu hunain. Eiddo y plwyf yw y fonwent a'r eglwys. Nid oes dim hawl mewn iawnder gan yr Esgobwyr i'w gorfaelu. Eu hunig hawl yw y gyfraith ac y mae'r gyfraith hono yn anghyfiawn. "Ie," meddai rhywun

"wedi i'r gweinidog gael caniatad i ddarllen yn y fonwent, bydd eisiau arno y'mhen tipyn fyned i mewn i'r eglwys i ddarllen." Bydd, bid sicr. Paham lai? Onid oes ganddo gystal hawl i eiddo y plwyf ag sydd gan yr offeiriad? Gobeithio y llwydda Mr. Morgan yn ei ymdrech clodwiw. Ymaith a phob gormes o'r wlad.

Ysgrif y Mwnwyr.—Ail gynyg gan Mr. Bruce i basio trwy'r Senedd fesur i roddi mwy o ddiogelwch i fywydau ein glowyr a'n mwnwyr. Bydd yn fendith i filoedd os y llwydda i ffurfio Act a fyddo yn foddion i leihau y damweiniau sydd mor ddinystriol i fywydau *class* o ddynion a deilyngant gymmaint oddiwrth y byd. Mae hon yn wahanol mewn amryw bethau i'w ysgrif flaenorol. P'un a ydyw yn well neu yn waeth, nid ydym ni yn gymmwys i farnu. Yn y lle eyntaf, gyda golwg ar hogynod, cynygir cymhwyso y Factories Act hyd byth y gellir. Caniateir ynddi i rai deng mlwydd oed i ddechreu gweithio. Os y byddant yn gweithio chwech diwrnod yn yr wythnos, nid ydynt i weithio dros ragor na chwech awr yn y dydd; ond os na fyddant yn gweithio rhagor na thri diwrnod yn yr wythnos, caniateir iddynt weithio deng awr y dydd. Yn yr ysgrif o'r blaen caniateid iddynt weithio deuddeg awr. Rhaid iddynt gael wyth awr o ysgol bob wythnos, heblaw ysgol Sul, ac ysgol nos, neu ysgol cyn wyth yn y boreu. O dair ar ddeg oed i un ar bumtheg, nid ydynt i weithio rhagor nac un awr ar bumtheg a deugain yr wythnos. Mae i bob hogyn dan un ar bumtheg gael deuddeg awr o orphwys rhwng pob dau ddiwrnod, ond rhwng dydd Gwener a dydd Sadwrn, ni chaniateir ond wyth awr o orphwys, fel y gallo ddechreu ei waith yn foreuach dydd Sadwrn er mwyn cael haner gwyliau yn y prydnawn. Hefyd gyda golwg ar y gwaith, rhaid cael dwy *shafi* a'r ffordd rhyngddynt ddim llai na phedair troedfedd o led a phump o uchder. Rhaid hefyd i bob arolygwr gael llythyr-dyst ei fod yn gymmwys at ei swydd, ac y mae bwrdd i gael ei sefydlu i arholi ymgeiswyr i'r swydd; ond am y sawl sydd yn arolygwyr yn barod, mae iddynt hwy gael llythyr-dyst heb fyned trwy arholiad. Cynygir hefyd fod llys i gael greu er mwyn chwilio i mewn i gyhuddiadau yn erbyn unrhyw arolygwr, ac y mae ei lythyrdyst i gael ei ddifuddio hyd ddedfryd y llys. Cynygir mesurau caeth hefyd o barthed i bowdwr, ac ni chaniateir i neb dan 18 oed i gymeryd gofal o'r peiriant ar enau pwll lle byddo dynion yn disgyn ac yn esgyn. Mae y dull presenol o arolygu i bara—yr arolygwr yn benaf yn atebol am ddiogelwch y gwaith, ond y mae gwylied gwastadol i fod bob dydd a phob awr gan bawb fyddont yn dal perthynas â'r gwaith—y meistri, yr arolygwyr, a'r gweithwyr. Bydd hawl gan y gweithwyr i huria ar gost eu hunain ryw ddau o'u cydweithwyr, a chan yr arolygwr i appwyntio un i fyned i lawr gyda hwy, i edrych y gwaith ac i weled ei fod mewn cyflwr diogel. Dyma sylwedd prif adranau yr ysgrif. Beth feddylia y gweithwyr a'r meistri am dani, nid ydys eto yn gwybod. Gobeithiwn y rhoddir yr ystyriaeth ddwysaf iddi, oblegid prif amcan Mr. Bruce yn ddiau yw diogelu bywydau y glowyr. Dichon fod yn yr ysgrif rai pethau fydd yn rhaid eu cyfnewid, ond ar y cyfan, mor belled ag y gallwn ni farnu, mae yn ysgrif dra phwrpasol i'r dyben.

YR ALABAMA.

Yr oedd yr *Alabama* yn agerlong, 900 o dunelli, gyda pheirianau o 300 ceffyl, ond cafodd ei hadeiladu yn fwyaf neillduol i hwylio yn gyflym.

Yr oedd yn dra amlwg ei bod yn cael ei hadeiladu i ddybenion

rhyfelgar, ac yr oedd lle cryf i feddwl er y dechreu ei bod yn cael ei bwriadu at wasanaeth y Deheuwyr yn rhyfel yr America.

Nofiwyd hi gyntaf Mai 15, 1862; ond yr oedd Mr. Dudley, y Trafnodydd Americanaidd yn Lerpwl, wedi bod yn gohebu gyda Mr. Adams yn ei chylch y'mhell cyn hyny; ac ar y 24ain o Mehefin anfonodd Mr. Adams at Lord Russell i erfyn arno wneud ymholiad yn ei chylch. er cael ei chymeriad a dybenion ei hadeiladwyr.

Anfonodd Lord Russell at swyddogion y tolldy yn Lerpwl, ar iddynt ei gwylio, a deall ei chymeriad.

Gwnaed hyn ac adroddwyd nad oedd amheuaeth am ei chymeriad ryfelgar.

Dygodd Mr. Dudley brofion i ddangos mai i'r Deheuwyr yr oedd wedi ei bwriadu, a gosododd y profion o flaen yr awdurdodau ar y 9fed o Gorphenaf, ond bernid nad oeddent yn ddigonol i gyfiawnhau atafaelu y llestr.

Parhaodd y llong dan wyliadwriaeth, ac o'r diwedd llwyddodd Mr. Dudley i gael profion digonol.

Ar yr 21ain o Gorphenaf gosododd Mr. Dudley dystlwon o flaen prif swyddog y tolldy yn Lerpwl, yn ol arch a dderbyniasai oddiwrth Mr. Adams.

Ar yr un diwrnod anfonwyd y profion hyn i'r *Board of Customs* yn Llundain, y'nghyd a chais ar fod i'r awdurdodau anfon yno yn ddioed gyda'r pellebyr at y swyddogion yn Lerpwl beth i'w wneud, a pha fodd i weithredu, o herwydd fod y llong yn ymddangos yn barod i hwylio allan o'r porthladd unrhyw awr.

Gosodwyd y papyrau yn ddioed o flaen y *Board of Customs*, a darfu i'r *Board* osod y cwbl o flaen y cynghorwyr cyfreithiol ar yr 22ain; ond darfu iddynt hwy farnu nad oedd y profion yn ddigonol i gyfiawnhau atafaeliad y llestr.

Ar yr un pryd anogasant fod y tystiolaethau a'r llwon i gael eu gosod o flaen swyddogion cyfreithiol y Goron, er cael eu barn hwy, yr hyn a wnaed ar y 23ain.

Yn awr aeth pum diwrnod o oediad heibio cyn cael eu barn ar y pwnc, ac y mae yn anhawdd teimlo yn rhy ofidus fod y fath oediad wedi cymeryd lle.

Ar foreu y 29ain anfonodd Lord Russell gyda'r pellebyr i Lerpwl ar fod i'r *Alabama* gael ei hatal rhag hwylio allan, o herwydd ei bod wedi troseddu y *Foreign Enlistment Act.*

Ond yr oedd yn awr yn rhy ddiweddar, canys yr oedd yr *Alabama* wedi hwylio allan yn barod heb *clearance* na *register*, gan honni ei bod yn myned allan i roddi prawf ar ei pheirianau!

Yr oedd ar ei bwrdd gwmni o foneddigesau a boneddigion o Lerpwl a Birkenhead, gyda'r Mri. Lairds a'r Cadben Bullock, goruchwylwyr y Deheuwyr, y rhai a ddychwelasant yn y *Tug Steamer* ar ol gadael yr *Alabama* tu allan i awdurdod y gyfraith!

Nid ydyw Lord Russell na thurneiaid y Goron wedi esbonio y pum diwrnod o oediad eto; ond dywed y *Times* mai yr achos o'r oediad oedd fod y *gout* ar Syr John Hardinge!!

O'r *Herald Cymraeg, Chwefror 16, 1872.* B.

GARDDWRIAETH Y BWTHYN.

(Parhad o Tud. 228 o'r YMOFYNYDD am 1871.)

55. Moron gwynion, panas (*parsnip*). Feallai fod y banasen y gwreiddyn goreu, yn nesaf at y gloronen, ag a all dyn gwan ei godi yn ei ardd. Ystyrir hwynt (sef y panas) yn iachusach ymborth na'r Moron cochion (*carrots*). Y mae y driniaeth a ofynant ar law y garddwr yn o gyffelyb :—Ond gofynant fwy o bellder rhwng y rhesi, a rhwng y planhigion yn y rhesi. Hefyd cymera yr hadau fwy o bridd arnynt. Gan na niweidia y rhew hwynt, nid oes eisiau codi y panas o'r ddaear cyn y gauaf ; y mae y rhew, hytrach, yn pereiddio eu blas. Gellir hau y prif gnwd o honynt yn Mawrth. Y mae chwyn y mor, lle byddo yn gyfleus, yn wrtaith da atynt. Gofaler peidio rhoddi tail gwelltog iddynt, am yr un rheswm ag a rhoddwyd yn achos y "carrot."

Gellir dechreu eu bwyta yn mis Medi, a chadwant eu blas hyd yn Ebrill neu Mai. Os bydd yn wanwyn cynnar, neu eisiau eu lle arnoch, codwch hwy o'r tir, torwch eu penau, a chladdwch hwy fel cloron. Ystyrir y rhai hyn eto yn frodorion Prydeinig. Y mae amrywiaeth o honynt ; megis, "The Student, Hollow Crown ; Jersey Marrow." &c. Gallaf dystio fod y tri math uchod yn dda, ond tueddwyf i rhoddi y flaenoriaeth i'r olaf a enwais.

Mewn rhai llyfrau garddwra, cynghorir cyffroi y pridd yn fynych rhwng y panas, trwy ei geibio a'r chwyngail. Gwn trwy brofiad fod llawer o geibio rhwng y panas yn peru iddynt dyfu yn faglog, ac felly yn fethiant. Gallwch dynu y chwyn a'ch llaw, ond goreu pa leiaf a gyffroch ar y pridd rhwng y panas, os na fydd yn galed iawn.

Dywedai cymydog wrthyf fod ei banas ef yn dyfod yn fwy wrth dori ymaith eu dail, yr un fath ag y gwneir a Beatus.

56. Ffordd i gael *Carrots* a phanas mawrion. Y mae yn ffordd drafferthus, ond nid gormod felly at rhyw ddeg ar hugain, neu ddeugain o blanhigion.

Naddwch bren o'r dull a'r maintioli y dymunech i'ch moronen fod, gan gadw hefyd garn at gydio ynddo. Wedi i chwi drin y tir i'r dyfnder priodol, tyllwch ef a'r pren hwn, gan ei wasgu yn dda yn erbyn yr ochrau fel na syrthio y pridd i mewn pan dyner ef allan. Cymerwch fasgedaid o hen dail pydredig da, a llanwch y tyllau ag ef, gan ei chwalu yn fanwl rhwng eich bysedd ; yna planwch ddau hedyn ar wyneb pob twll, a gorchuddiwch hwy ag ychydig bridd bras teg, a rhoddwch guriad bychan iddo a thor eich llaw. Dyben y ddau hedyn yw, rhag i un fethu—os daw y ddau i fyny, tynwch ymaith y gwanaf, a gadewch y lle i'r llall. Ni bydd eisiau gwneud dim ychwaneg iddynt, ond yn unig difa y chwyn, cadwch lygad gwyliadwrus ar ol y tylwyth hyny, oblegid lladron digydwybod ydynt.

57. Y pryd a'r modd i chwynu. Fe allai nad anmhriodol, yn y fan hon, fyddai nodi un camsynied ynghylch y pryd a'r modd i chwynu yr ardd. Yr arfer gyffredin yw gadael i'r chwyn o bob rhyw a math gyd-dyfu a'r cenin, yr wynwyn, y panas a'r *carrots*, yr erfin a'r cwbl, nes byddo gwelyau yr ardd fel cynifer o grofftenau bychain o dir gwair neu borfa ; a bydd raid edrych yn graff cyn y gweloch flaenau meinion eich llysiau eiddilaidd, rhwng dail a changhenau cawraidd troed y fran, speedwell, y groundsel, &c., fyddant wedi eu blaenu i ryw le mewn tyfiant. Yna, gwedi cael pethau i'r cyflwr hwn, rhaid aros i gael gwlaw i wreiddio'r tir. cyn y cymerer diwrnod i chwynu ; ac ar ol y diwrnod mawr hwnw, bydd yr ardd yr un olwg a phe byddai wedi ei deifio gan boethwynt y dwyrain.

Clywsoch ddywedyd am ladd y neidr yn y plisg, a dyna y llwybr diogelaf os gellir cael y cyfle ; ac felly gyda golwg ar y chwyn, y llwybr goreu yw eu difa bob yn un ac un ar eu gwaith yn dangos eu penau uwchlaw wyneb y tir, ac nid tori eu brigau, ond tynwch bob un o'r gwraidd, a dyna ddiwedd ar hwnw.

Peidiwch er dim a gadael i un dywysen addfedu had, os gellwch fodd yn y byd, onide bydd yr un eleni yn ddwsin, neu fe allai yn gant y flwyddyn nesaf. Cofiwch chwedl yr hogyn yn lladd y gwyddau bach am fod yr hen rai yn ei flino.

Y DIWEDDAR T. J. HUGHES, YSWAIN, CASTELLDU.

Y MAE i bob dyn byw ei amser terfynedig ar y ddaear. Pridd yw dynion ac i'r pridd rhaid iddynt ddychwelyd mor gynted ag y delo eu

blynyddoedd a'u dyddiau i ben. Ni wna cyfoeth a defnyddioldeb, na pharch cyffredinol gwlad ddygymod ag angau fel ag i arbed neb rhag y ty rhagderfynedig i bob dyn byw. Ond er fod y dynged yn anocheladwy, tueddir ni weithiau i feddwl mai iawn fyddai i angau arbed ein dynion goreu hyd yr eithaf—hyd dri ugain mlynedd a deg a phedwar ugain mlynedd; braidd na ddywedwn weithiau, gan gymmaint ein siomedigaeth, mai nid cyfiawn yw holl ffyrdd yr Arglwydd. Mae llawer o ddynion yn y wlad a'r gymydogaeth, gallem ni lawer pryd feddwl, na fyddai yn un anfantais i neb eu symud ymaith, ie, y byddai yn enill i gymdeithas pe cymerid hwynt allan o'r ffordd; a chan fod yn rhaid i angau gael ei ysglyfaeth chwilied allan y dynion hyn, a gadawed ar ol i ni y rhai nis gallwn heb golled eu hebgor. Ond nid felly y barna yr Hwn sydd yn gwybod y diwedd a'r dechreuad, yr Hwn y mae ei ddoethineb yn ddigamsyniol; a'n dyledswydd ni yw ymostwng i'w drefniadau Ef, yn hyderus fod y cyfan er daioni.

Yn yr Ymofynydd am Awst diweddaf cofnodwyd marwolaeth Thomas Hughes, Yswain, Neuaddfawr, Llanbedr, Ceredigion, bonheddig a fawr berchid yn y wlad ar gyfrif ei amryw ragoriaethau; ac yn y rhifyn hwn yr ydym yn alarus yn cofrestru marwolaeth ei unig fab, Thomas John Hughes, Yswain, o'r Castelldu, ger Llanwnen, yr hyn a gymerodd le nos Sul yr 28ain o Ionawr diweddaf, y'mhen rhyw saith mis a phythefnos ar ol ei dad. Yr oedd yr ymadawedig yn 45 oed. Ni bu ond pythefnos o amser yn glaf, ac ni ystyrid, hyd o fewn i ddwy awr i'w farwolaeth, fod un perygl yn bod. Cafodd Mr. Hughes y manteision addysg goreu o fewn cyrhaedd. Treuliodd rai blynyddau yn Ysgol Ramadegol Llanbedr dan ofal y Parch. Mr. Felix, Periglor presenol Llanwenog a Llanybyther. Wedi hyny aeth i *University College*, Llundain, ac wedi gorphen ei efrydiaeth yno ymroddodd i astudio meddyginiaeth a llawfeddygaeth. Ac er na ddilynodd efe ei alwedigaeth ond am ychydig flynyddau, eto ystyrid ef yn un o'r llawfeddygon mwyaf medrus a llwyddianus yn y wlad, ac ni omeddai roi ei wasanaeth a'i gynorthwy mewn achosion o bwys pan y byddai galw.

Ymbriododd a Miss Thomas, merch David Rice Thomas, Yswain, Troedrhiw, Llanwenog, yr hon a fu farw ym mis Chwefror, 1866. Y mae un plentyn yn fyw, sef mab, yr hwn sydd oddeutu 18 oed, ac ar ei gyfer y mae etifeddiaeth werthfawr—wedi dyfod o hono i'w gyflawn oed. Gobeithio y gwna Rhagluniaeth arbed ei fywyd, ac y bydd yn foneddwr parchus ac yn aelod defnyddiol mewn cymdeithas yn ngwlad a chymydogaeth ei dadau.

Yr oedd Mr. Hughes yn Ynad Heddwch, ac yn un o *Coroners* y Sir, i'r hon swydd yr appwyntiwyd ef yn ddiwrthwynebiad er ys amryw flynyddau yn ol.

Mewn *Politics* yr oedd Mr. Hughes, fel ei dad a'i deidiau, yn Rhyddfrydwr egwyddorol,—nid megys llawer yn proffesu rhyddfrydiaeth, ac eto yn ormeswyr yn eu calonau, ond un a ddangosai mewn ymddygiad fod yr egwyddorion a goleddai yn rhyw beth yn fwy na *sham*. Pan y byddai ymdrech yn bod nid oedd neb yn gynt nâ'n cyfaill ymadawedig ar y maes, na neb yn fwy dylanwadol a llwyddianus. Un twym ydoedd a gweithiai â'i holl egni ar y pryd, ond wedi yr elai heibio yr ymdrechfa,

a phenderfynu'r ddadl, nid oedd neb yn fwy o garwr welwch a thangefedd yn y wlad nag ef. Ni fachludai yr haul ar ei ddigofaint, ac ni wyddai pa beth oedd ysbryd ymddial. Y mae yn ddiddadl fod y blaid Ryddfrydig yn y Sir hon (Sir Aberteifi) wedi cael colled mawr trwy farwolaeth Mr. Hughes, ac y teimlir hyny pan daw brwydr eto.

Fel meistr tir yr oedd yn un o'r tirionaf, ac y mae ei ddeiliaid yn dwys hiraethu ar ei hol. Cadwai lawer iawn o weithwyr o bob math yn Castelldu a'r Neuaddfawr, a chaiff y rhai'n a'u teuluoedd golled nid bychan ar ei ol. Claddwyd ef dydd Gwener yr ail o'r mis diweddaf yn nghladdfa y teulu yn ymyl Hen dy'r Neuadd, lle y gorphwysai ei dad a'i ewythr o'i flaen, a bydd y fan yn anwyl gan bawb a'i hadwaenai. Bydded i'w fab a'i etifedd, Master T. H. Hughes, a'i chwaer, Mrs. Jones, Llwynygroes, gael nerth i beidio galaru yn anobeithiol ar ei ol. Gwawria dydd eto ar nos dywyll y bedd. T.

Bu Farw.

Evan Jenkins, anwyl fab Richard a Rachel Evans, 8, David-street, Aberdar, Hydref 13, 1871, yn ddwy flwydd a mis oed. Cyflawnwyd y gwasanaeth angladdol yn yr Hendycwrdd gan y gweinidog, yr hwn a bregethodd oddiar Deut. xxxii. 29. Claddwyd yn y *Cemetery*.

"Er gwywo'i oes fel blodyn gwan,
Er marw yn anamserol,
Ceir etto 'r bach yn hardd ei wedd
Yn ngwlad yr hedd trag'wyddol."

William Price.—Ar y 20 Tachwedd diweddaf, yn 61 oed, William Price, Penywaun, ger Aberdâr, Claddwyd ef y Mercher canlynol. Cyn cychwyn, pregethodd y Parch. R. J. Jones, A,C., oddiwrth Ioan xvi. 20, yn dra tharawiadol. Yna hebryngwyd y trancedig i fonwent Penderin. Gadawodd weddw a phlant galarus ar ei ol.

Evan Harris.—25 Rhag. diweddaf, yn 65 oed, Evan Harris, mab yr hen fardd William Harri, Garwdylau, a thadynghyfraith y diweddar Barchedig O. Evans o Gefncoedcymer. Dioddefodd gystudd hir yn hynod o dawel ac amyneddgar. Yr oedd yn ymadroddwr medrus, rhesymwr grymus, a chyfaill parchus gan bawb o'i gwmpas. Yr oedd yn dad tyner ac yn gynghorwr synwyrol. Claddwyd ef yn monwent Penderin, ac yn yr un bedd a'i briod, Elizabeth Harris, yr hon a gladdwyd yn Ebrill, 1865, yn 61 oed, ac a fu yn aelod flynyddau lawer yn Eglwys Undodaidd y Cefn. Nid oes i ni yma ddinas barhaus, oblegid gosodwyd i ddyn farw unwaith. Jenkin Llewelyn.

Mary Jones.—Rhagfyr 29, Mary, mabwysferch John a Anne Jones, Morgan Row, Cwmbach, o'r Frechwen, yn naw mlwydd oed. Ni fu yr ymadawedig byw ond ychydig ddiwrnodau wedi cael ei tharo gan y clefyd uchod, yr hwn sydd wedi bod yn farwol mewu llawer o amgylchiadau yn y lle hwn yn ddiweddar. Nid oedd neb yn fwy rheolaidd na Mary Jones yn yr ysgol Sul perthynol i'r Undodiaid yn y Cwmbach. Hebryngwyd ei gweddillion y Sadwrn canlynol, gan dyrfa luosog, i *Cemetery* Aberdar. Anerchwyd y gwyddfodolion ar lan y bedd gan y Parch. E. W. Lloyd.

[Yr ydys wedi gorfod gadael allan y tro hwn amryw farwolaethau a gânt ymddangos yn y rhifyn nesaf.—Gol.]

C. & D. JONES, STEAM PRINTERS, CARMARTHEN.